Cadeirydd:
Hon. Chairman:
Geraint Jones Lewis
Rhyd-y-gof Isaf,
Pont Creuddyn,
Llanbedr Pont Steffan,
Ceredigion
(01570 470348)

Ysgrifennydd:
Hon. Secretary:
Sian Ioan,
Croesheddig Newydd,
Pentre'r Bryn,
Llandysul,
Ceredigion,
SA44 6NB
(01545 560255)

Cylchlythyr Calan Gaeaf 2012 *Winter Newsletter*

CCB 2012

Mae ein diolch yn fawr iawn i Annalou Daybell a'i ffrindiau ym musnes Cŵn Defaid Sir Benfro am ein croesawu i ardal Tŷ Ddewi ar gyfer y CCB eleni.

Cafwyd arddangosfa wych o grefft magu a rhedeg cŵn defaid gan Anna-lou, ei chŵn a'i defaid, gwyddau a geifr! Roedd y sioe yn destun rhyfeddod a difyrrwch, wrth i ni synnu a chwerthin am yn ail. Bendigedig!

Aed am dro wedyn o gwmpas y tyddyn i edrych ar ei gwartheg cenglog a cherdded ychydig o lwybr arfordir enwog Sir Benfro. Yno cawsom gip ar forloi a'u cenawon yn cysgodi ar y draethell islaw.

Gorffennwyd diwrnod da gyda phryd o fwyd blasus yn Nhafarn y Sgwâr ger Croes-goch, lle cynhaliwyd y CCB.

Ceir mwy o luniau drosodd a cheir cofnodion ar ffeil i'w dosbarthu.

AGM and field visit 2012

We are very grateful to Annalou Daybell and friends at *Pembrokeshire Sheepdogs* who welcomed us to the St Davids area for this year's AGM and field visit.

Anna-lou gave us a wonderful exhibition of the craft of the sheepdog trainer – with the help of her dogs, sheep, geese and goats! The show was both educational and entertaining. Wonderful show Anna-lou! Many thanks.

The exhibition was followed by a stroll around the farm to view the belted cattle. We also walked a stretch of the famous Pembrokeshire Coastal Path and viewed seals and their pups in the coves below.

A good day was rounded up by a tasty bar meal at the nearby Square and Compass where the AGM was also held.

More photos overleaf. AGM minutes now available.

Rhai o wartheg Tremynydd.
Tremynydd cow and calf.

Aelodau yn mwynhau'r arddangosfa.
Members enjoying the exhibition.

Rhoi'r gwyddau yn eu lle.
Putting the geese through their paces.

Ein gwestai caredig, Annalou Daybell.
Our kind host, Annalou Daybell.

Aelodau yn edrych ar y gwartheg
Members viewing cattle

Arfordir gwych Sir Benfro
The beautiful Pembrokeshire coastline

Sioe Luniau 2012

Llongyfarchiadau gwresog i Geraint Jones Lewis a Debbie Powell am gipio'r tlysau yn y Sioe Luniau eleni. Diolch yn fawr i John Forster am feirniadu.

Dyma'r canlyniadau:

Pencampwr: D&D Powell, Teme Valley (Tarw)

Is-bencampwr: G Jones Lewis, Gof. (Anner/Heffer)

Tarw: (1) D&D Powell, Teme Valley (2) S&G Ioan, Dre-fach (3) S&G Ioan, Dre-fach.

Buwch: (1) D&D Powell, Teme Valley (2) R Clifton, Talwrn (3) G Jones Lewis, Gof.

Anner/Heffer: (1) G Jones Lewis, Gof (2) R Clifton, Talwrn (3) G Jones Lewis, Gof.

Llo: (1) R Clifton, Talwrn (2) G Jones Lewis, Gof (3) G Jones Lewis, Gof

Photo Show 2012

Congratulations to Geraint Jones Lewis and Debbie Powell on winning the Photo Show trophies this year. Many thanks to John Forster for adjudicating.

The results are:

Champion: D&D Powell, Teme Valley (bull)

Res. champion: G Jones Lewis, Gof. (Heifer)

Bull: (1) D&D Powell, Teme Valley (2) S&G Ioan, Dre-fach (3) S&G Ioan, Dre-fach.

Cow: (1) D&D Powell, Teme Valley (2) R Clifton, Talwrn (3) G Jones Lewis, Gof.

Heifer: (1) G Jones Lewis, Gof (2) R Clifton, Talwrn (3) G Jones Lewis, Gof.

Calf: ((1) R Clifton, Talwrn (2) G Jones Lewis, Gof (3) G Jones Lewis, Gof

Debbie Powell, John Forster, Geraint Jones Lewis.

Calendrau 2013

I godi arian i goffrau'r gymdeithas mae Geraint wedi trefnu cynhyrchu calendr GHC sy'n cynnwys lluniau'r holl fuddugwyr yn y Sioe Luniau eleni.

Gallwch archebu copi drwy gysylltu â Geraint neu Siân. Pris - £5.00 yr un neu 5 am £20. Bargen y Nadolig!

Arwerthiant GHC 2012

Cynhaliwyd arwerthiant yn Nhregaron ar 18fed Medi 2012. Daeth criw da ynghyd ac fe werthwyd tua 20 anifail.

O ran prisiau uchaf: rhoddwyd £910 am fuwch a llo cefngwyn o eiddo Robert Clifton; £870 am anner gyflo hefyd o'i eiddo; £925 am eidion o eiddo Geraint Jones Lewis a £590 am lo tarw blwydd o eiddo Dafydd Harries. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Grŵp Agrisôp Canolbarth Cymru

Bydd y grŵp yn ailgydio yn eu cyfarfodydd dros y gaeaf dan law Mike Lewis. Ymhlith eitemau eraill mae'n debygol y bydd y grŵp yn edrych ar y posibilrwydd o gadw had ar gyfer tarw potel.

Gŵyl Wanwyn CAFC

Noder y bydd Gŵyl Wanwyn CAFC ar 18-19 Mai 2013. Bydd GHC yn ôl yno. Croesawir pob cymorth!

Calendars 2013

As a fundraising exercise Geraint has arranged the publication of a 2013 ACW calendar which features this year's Photo Show winners.

Place your order with Geraint or Siân for a bargain price of £5.00 each or 5 for £20. Excellent Yuletide presents!

ACW Sale 2012

A sale of ACW cattle was held at Tregaron on 18th September. A good crowd attended with around 20 entries.

In terms of top prices: £910 was given for a Robert Clifton's line-backed cow and calf; Bob also gained £870 for an in-calf heifer; Geraint Jones Lewis received £925 for a steer and Dafydd Harries £590 for a 12 month old bull calf. Many thanks to all who supported the sale.

Mid Wales Agriscope Group

The group will reconvene over the winter months, facilitated by Mike Lewis. Among other topics, no doubt the group will look at the possibility of extending our AI resources.

RWAS Spring Festival

Please note that the RWAS Spring Festival will be on 18-19 May 2013, when ACW will be back in force. Volunteers welcomed!

Gwartheg Cenglog Gwlad yr Haf

Efallai I rai ohonoch weld erthygl yn y Farmer's Weekly yn sôn i'r darlun olew gwreiddiol (6'x4') a gynhyrchodd y print uchod wedi ei ddarganfod yn yr UDA gan John a Pat Stanley o Swydd Gaerlŷr. Mae'r llun wedi ei arwyddo a'i ddyddio yn 1808 gan yr artist anifeiliaid enwog William Shiels. Bu i Wartheg Cenglog Gwald yr Haf farw allan yn y 1930au, fwy na thebyg oherwydd y Diciau. Maen debygol eu bod yn perthyn i wartheg cochion llaethog Dyfnaint.

Buwch genlog ym Mannau Lloegr!

Gwelwyd y fuwch genglog Gymreig yma ger Edale ym Mannau Lloegr (Peak District) eleni gan un o staff UK Outdoor Adventure ar y ffordd i gynhadledd. Tybiodd mai Galloway Genglog oedd hi. Mae e wedi cael ei oleuo!

Somerset Sheeted Cattle

Some of you may have noticed an article in the Farmer's Weekly that mentioned that the original oil painting (6'x4') from which the above print was taken was discovered by John and Pat Stanley of Leicestershire. The painting is signed and dated 1808 by renowned animal artist William Shiels. Somerset Sheeted Cattle died out in the 1930s, probably due to TB. They were probably related to red Devon dairy cattle of the period.

BWB spotted in Peak District

This BWB was spotted near Edale, Peak District, by UK Outdoor Adventure staff member on his way to a conference in earlier this year. He jumped to the conclusion that it was a Belted Galloway. He has been enlightened!

Dolen/Weblink

Erthygl I chi bori ynddi ar GHC:
You might wish to peruse an article on ACW found on the Free Library website:
http://www.thefreelibrary.com/Rare+coloured+Welsh+cows+are+the+new+black%3B+White,+blue,+belted+and...-a0133273306